

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

2/1/2018

Presennol: Heledd Jones (Cadeirydd), Alwyn E Jones (Is-gadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, Karl Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol)

Ymddiheuriadau: Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Ian Trow, Lis Puw

- 1804** Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb a rhoddodd adroddiad ar ymweliad lolo Tegid i ystyried gwella diogelwch wrth Bont Lliw (A494). Disgwylir clywed ganddo a oes posibilrwydd cael croesfan gyfleus o dan y Ddeddf "Active Travel Act".
- 1805** **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1806** **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
- 1807** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5/12/2017.
- 1808** **Materion y Clerc :** Atgoffwyd mudiadau o'r angen i gyflwyno ceisiadau am gymorth ariannol, yng nghyd â mantolen / datganiad banc, ym mis Chwefror.
- 1809** **Y Noson Goffi:** Cadarnhawyd trefniadau ar gyfer 13/2/18. Rhannwyd tocynnau i'r aelodau i'w gwerthu; mae'r Cynghorwyr hefyd yn gwneud cyfraniad gwirfoddol tuag at yr achos da.
- 1810** **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd adroddiad.
- 1811** **Materion Eiddo'r Cyngor:** Derbyniwyd Adroddiad Karl Jones: roedd y goeden Nadolig wedi cael derbyniad da gan y trigolion dros yr Ŵyl, ac fe wnaethpwyd trefniadau i'w thynnu a'i gwaredu.
- i. Prosiect Byrddau Gwybodaeth – adroddodd Huw Antur fod cais am grant wedi ei baratoi ar gyfer ei chyflwynol diwedd y mis. Bydd ef ac Alwyn Jones hefyd yn cyfarfod Keith O'Brien i drafod ymhellach.
 - ii. Prosiect uwchraddio'r toiledau – cafwyd trafodaeth ar y ffordd ymlaen a chytunodd y Cadeirydd i greu is-bwyllgor.
 - iii. Mainc Garth Bach - bydd Karl yn cyd-weithio gydag Elis Jones (sydd yn gwneud gwaith gwirfoddol cymunedol fel rhan o'i gwrs coleg) i wneud y gwaith trwsio sylweddol sydd ei angen ar y fainc.
 - iv. Mae llochesi bws y Lôn, Peniel a'r ysgol mewn cyflwr da. Cynigiodd Alwyn Jones i wneud gwaith i atal i ddŵr gronni wrth loches bws Tŷ'n Ddôl.
 - v. Gosodwyd yr arwyddion di-ffib ar y llochesi bws. Diolchwyd i Karl Jones am ei adroddiad a'i waith.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Nia Heledd Jones

1812 Y Fynwent: Trafodwyd yr angen am osod bwrdd gwybodaeth wrth y Porth yn ychwanegol at yr un sydd yn y maes parcio. Cytunodd Karl Jones i edrych mewn i'r mater.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r Cytundeb gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar gyfer defnyddio'r maes parcio. Mae mater croesfan ddiogel yn effeithio ar y mater ond cytunwyd fod disgwyl cynnig teg.

1813 Materion ariannol: cymeradwywyd cynnwys e-bost y Swyddog Ariannol Cyfrifol am daliadau'r mis.

1814 Materion lleol: Cytunwyd i gyfeirio cwynion am ddŵr ar hyd ffordd Penantlliw bach i sylw'r Cynghorydd Sir, a hefyd cwynion am fwd a dŵr yn cronni ar y safle lle mae bysiau yn troi'n ôl wrth bont yr afon Twrch.

1815 Partneriaeth Penllyn: nid oedd adroddiad y tro hwn.

1816 Gohebiaeth: Cafwyd trafodaeth ar y ffaith y bydd safle presennol Swyddfa Post Y Bala yn cau yn fuan a mynegwyd y gobaith y bydd y gwasanaeth yn cael ei sefydlu mewn man arall yn y dref.

Parc Cenedlaethol Eryri: Cymeradwywyd cais NP5/71/409D sef adeilad i roi lloches i geffylau a storfa peiriannau ym Mryn Caled, Llanuwchllyn

Amser gorffen: 9.00pm